



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I staff sydd yn gweithio yn y gwasanaethau iechyd:

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd

Cyfarwyddwyr Meddygol

Cyfarwyddwyr Nyrso

Cyfarwyddwyr Gwyddonwyr Therapiau a Gofal Iechyd

Oddi Wrth:

Dr Frank Atherton, **Prif Swyddog Meddygol** a'r


Athro Jean White CBE, **Prif Swyddog Nyrso**

Dyddiad:

17 Ebrill 2020



Ar 12 Ebrill 2020 fe wnaethon ni ysgrifennu llythyr at staff iechyd am y canllaw newydd i wasanaethau iechyd.



Nod y canllaw ydy helpu staff iechyd i wneud penderfyniadau am sut i edrych ar ôl pobl yn yr amser anodd yma o coronafeirws.



Fe wnaethon ni ofyn i staff rannu'r canllaw i wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod amdano.



Rydych chi'n gallu darllen y canllaw yma:
https://llyw.cymru/coronafeirws-werthoedd-ac-egwyddorion-moesegol-ar-gyfer-darparu-gofal-iechyd-0?_ga=2.132813574.927702584.1587118396-2139472105.1458812770



Rydych chi hefyd yn gallu darllen beth mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi ei ddweud am y canllaw yma:
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-waith-grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru?_ga=2.236336905.927702584.1587118396-2139472105.1458812770



Mae rhai cyrff sydd yn gweithio gyda phobl anabl a phobl gydag anabledd dysgu yn poeni ynghylch sut y bydd staff iechyd yn gwneud penderfyniadau yn yr amser yma o coronafeirws.



Ar 13 Ebrill fe wnaeth y **Grŵp Cyfeirio Anabledd** ysgrifennu datganiad am hawliau pobl anabl yng Nghymru yn yr amser yma o coronafeirws.



Fe wnaeth dros 1 mil o bobl a chyrrff lofnodi i ddweud eu bod nhw'n cytuno gyda'r datganiad.



Rydych chi'n gallu darllen y datganiad ar wefan **Anabledd Dysgu Cymru** yma:
<https://www.ldw.org.uk/cy/coronafeirws-covid-19-a-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru/>



Mae'r **Comisiynydd Pobl Hŷn** hefyd yn poeni am y gofal iechyd y bydd rhai pobl hŷn efallai yn ei gael yn yr amser yma o coronafeirws.



Rydych chi'n gallu darllen datganiad y **Comisiynydd Pobl Hŷn** yma:

[https://www.olderpeoplewales.com/cy/news/news/20-04-06/Treatment decisions and Do Not Attempt CPR Protecting people s rights.aspx](https://www.olderpeoplewales.com/cy/news/news/20-04-06/Treatment%20decisions%20and%20Do%20Not%20Attempt%20CPR%20Protecting%20people's%20rights.aspx)



Mae rhai pobl wedi cael cais i lofnodi ffurflenni i ddweud **na fydd** staff iechyd yn ceisio achub eu bywyd os ydy eu calon nhw yn stopio.



Enw'r ffurflen ydy **Na Cheisier CPR** neu **DNACPR**.



Dydyn ni **ddim** yn meddwl bod staff iechyd yn penderfynu peidio ceisio achub pobl dim ond oherwydd eu bod nhw'n hŷn neu oherwydd bod ganddyn nhw anabledd.



Ond rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn deall sut y **dylai** penderfyniad fel hyn gael ei wneud. Rydyn ni'n ysgrifennu'r llythyr yma i wneud hynny'n glir i bawb.



Dydy staff iechyd **byth** i fod i benderfynu peidio ceisio achub bywyd rhywun **dim ond** oherwydd:

- oedran
- anabledd neu
- cyflwr iechyd hir dymor.



Rhaid i unrhyw benderfyniad i beidio ceisio achub bywyd person gael ei wneud am y person hwnnw a'u anghenion unigol.



Fe ddylai staff iechyd **bob amser** siarad gyda'r person neu eu teulu am y penderfyniad.



Dydy staff iechyd **byth** i fod i benderfynu peidio ceisio achub bywydau **grŵp** o bobl. Er enghraifft, pobl anabl neu bobl gyda dementia.



Ar 20 Mawrth fe wnaeth y **Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Clinigol** neu **NICE** anfon canllaw ar ofal iechyd i oedolion sydd yn sâl gyda coronafeirws.



Ar 9 Ebrill fe wnaeth **NICE** anfon canllaw arall am yr offer mae staff iechyd yn ei ddefnyddio i benderfynu sut i drin pobl gyda coronafeirws.

Y rheswm am hyn ydy oherwydd dydy'r offer **ddim** yn gweithio'n dda i:




- Pobl iau
- Pobl gydag anabledd dysgu
- Pobl gydag awtistiaeth
- Pobl gyda rhai cyflyrau iechyd hir dymor fel parlys yr ymennydd.



Fe fydd y llythyr yma yn cael ei anfon at elusennau a chyrrff sydd yn gweithio yng Nghymru hefyd.

Oddi wrth

Dr Frank Atherton,
Prif Swyddog Meddygol a'r
Athro Jean White CBE,
Prif Swyddog Nyrsio.


Jean White